**Mae hefyd angen i'r Cynllun roi sylw:**

•

o’u cwmpas;

- lleoli datblygiadau fel y gellir eu gwasanaethu’n dda gan yr isadeileddau presennol;
- sicrhau bod datblygiadau’n annog cyfeoedd ar gyfer defnydd masnachol a phreswyl er mwyn cael budd amgylcheddol o gyd-leoli;
- lleoli datblygiadau mewn aneddiadau sy’n gallu dygymod ag effeithiau newid hinsawdd, drwy osgoi ardaloedd lle na ellir rheoli canlyniadau ac effeithiau amgylcheddol mewn modd cynaliadwy. Pan fo datblygiad yn digwydd mewn ardaloedd a pherygl hysbys, dylid sicrhau bod y datblygiad wedi’i gynllunio i fedru dygymod drwy gydol oes y datblygiad;
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth i fynd i’r afael ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd wrth leoli datblygiadau newydd

## Materion y dylai’r Cynllun roi sylw iddynt

Wrth lunio’r Cynllun Datblygu Lleol, nid yw’s nŷynllsylw L•

qvxe vdch `qfx l dkk x cxk`h cnra`qsgh`c fnencnksve+ xm tmnk `f `qvdhmh`c x rsq`sdf`dsg `mdcch`c`t+ f`mnkavxmshn l vx `q x sqdʊ `ƍq odmsqdʊ l vx` anc sve. c`sakxfh`c`t mdvxcc xm b`dk dt bxexmftƍm `qv xm x odmsqdʊ kkdh`e dt l `hms `ƍq kkdh`e gxfxqbg `b xmf mfgdem fvk`c `fnqdcƍ-

Wrth lunio opsiynau gofodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mae nifer o ystyriaethau allweddol:

- yr angen i droi golygon tua'r dyfodol a chymryd golwg tymor hir o leoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygu i'r dyfodol
- yr angen i symud oddi wrth ddynodi aneddiadau unigol yn nhermau cynllunio, gan gydnabod ardaloedd trefol cynaliadwy a grwpio aneddiadau
- yr angen i ddeall ymhle mae cynhwysedd isadeiledd neu ymhle i wneud gwelliannau
- yr angen i ddeall ymhle mae dichon datblygu er mwyn cyflawni datblygiad ar lawr daear, a chyfrannu tuag at fuddion isadeiledd a buddion cymunedol.
- Penderfynu ar natur a maint y datblygiadau a geisir yn y Cynllun
- I ba raddau y dylai ffactorau lleoliadol penodol, megis y potensial ar gyfer datblygu o fewn coridorau a chanolfannau trafnidiaeth cynaliadwy, neu leoli datblygiadau'n agos at ganolfannau cyflogaeth, ddylanwadu ar ddynodi dewisiadau gofodol
- I ba raddau y gall ardaloedd a phentref gwledig ddarparu ar gyfer twf mewn modd cynaliadwy.
- yr angen i'r strategaeth fod â digon o hyblygrwydd i allu gwrthsefyll newidiadau wrth fynd yn ei blaen i gael ei mabwysiadu

**Mae enghreifftiau o'r dewisiadau o ran y strategaeth ofodol, y bydd angen mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun, yn cynnwys:**

- **Dosbarthiad cynaliadwy** – datblygu hierarchaeth aneddiadau sy'n caniatáu ar gyfer dosbarthu datblygiadau'n gyfrannol yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd
- **Twf trefol wedi'i gyfeirio** – cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau i ganolfannau trefol sydd â'r cynhwysedd a'r isadeiledd i ymdopi a datblygiadau
- **Setliad Newydd** – adnabod anheddiad newydd yn seiliedig ar y coridor trafnidiaeth cynaliadwy
- **Gwasgariad** – dosbarthu datblygiadau'n gyfartal mewn aneddiadau ledled y Sir
- **Strategaeth Cynllun Datblygu Unedol** – ailadrodd strategaeth a hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun Datblygu Unedol
- **Dim strategaeth** – byddai penderfyniadau yn â datblygiadau newydd yn cael eu gwneud ar sail ad hoc yn ôl eu rhinweddau unigol
- **Arweiniad y Farchnad** – dull gweithredu'r farchnad rydd lle byddai datblygu yn digwydd yn yr ardaloedd hynny o'r Sir lle mae'r mwyaf o ddichonoldeb

## Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl

O fewn y Cynllun Datblygu Unedol caiff y strategaeth ei mynegi yn nhermau themâu'r strategaeth, gweledigaeth, amcanion strategol ac amcanion swyddogaethol a chaiff y rhain wedyn eu mynegi'n ofodol. Yna caiff y strategaeth ei throsi'n bolisïau strategol Rhan I ac yn bolisïau manwl Rhan II. Fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ystyrir y gellir datblygu dull gweithredu mwy strwythuredig a symlach sy'n cynnwys gweledigaeth, un set o amcanion a set o bolisïau strategol. Mae'n debygol y bydd y polisïau strategol hyn yn amlinellu:

- Dosbarthiad gofodol eang twf
- Dyraniadau allweddol / meysydd twf